



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI CYNALIADWYEDD

Y CYD-DESTUN

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhob agwedd ar ei gweithgaredd. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei hymestyn ar hyn o bryd (2013) drwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy, i osod dyletswydd ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol. Bydd yn ofynnol i Brifysgol Bangor fel rhan o'r sector addysg uwch weithredu'r ddyletswydd hon ac adrodd ar berfformiad.

CYNALIADWYEDD - EIN GWELEDIGAETH

"Ym Mhrifysgol Bangor, nid gweithdrefnau neu brosesau yw cynaliadwyedd. Ym Mhrifysgol Bangor mae cynaliadwyedd yn rhan o bopeth a wnawn. Cynaliadwyedd yw'r ffordd yr ydym yn gweithredu a chynaliadwyedd yw'r rheswm pam yr ydym yn gweithredu."

Yr Athro John G. Hughes, Is-ganghellor, Prifysgol Bangor

CYNALIADWYEDD - EIN CENHADAETH

Erbyn 2020, bydd gan Brifysgol Bangor enw da yn y sector addysg uwch ac yn rhyngwladol am ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Bydd gan ein graddedigion wybodaeth amlwg am ystyriaethau ac arferion rheoli a datblygu cynaliadwy a gafwyd o'u hastudiaethau a'u profiadau yn y brifysgol. Trwy gyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y polisi hwn bydd Prifysgol Bangor yn galluogi'r myfyrwyr, staff, partneriaid, busnesau, alumni a'r gymuned yn ehangach i weithredu newid cadarnhaol o fewn eu cylchoedd dylanwad a sicrhau bod Prifysgol Bangor ar flaen y gad o ran newid cynaliadwy yn fyd-eang.

CYNALIADWYEDD - EIN HEGWYDDORION

Adnabod dimensiynau'r heriau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd sy'n ein hwynebu

Cymryd perchenogaeth o'r problemau

Ymchwilio a gweithredu atebion

Sicrhau bod ystyriaethau priodol tymor hir yn sail i ddewisiadau a phenderfyniadau uniongyrchol

Gweld gwerth mewn profiadau amrywiol

Rhannu profiadau

Codi ymwybyddiaeth

Deall natur integredig pob gweithred

Dysgu o leoedd eraill

Herio ein hunain i wneud yn well

1. **DATGANIAD**

Mae Prifysgol Bangor yn derbyn cyfrifoldeb llawn am oblygiadau ei gweithgareddau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd ac ystyriaethau ehangach cynaliadwyedd, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod budd amgylcheddol cadarnhaol a chynnydd cymdeithasol yn deillio o fewn economi gadarn o ganlyniad i'w gweithgareddau. Mae Prifysgol Bangor yn rhoi cefnogaeth lawn i ddyhead Llywodraeth Cymru mai cynaliadwyedd yw'r brif egwyddor drefniadol. Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod ystyriaethau cynaliadwyedd wedi eu gwreiddio yn holl swyddogaethau busnes craidd y Brifysgol ac yn effeithio ar benderfyniadau a gweithrediadau ar bob lefel o'r sefydliad.

2. **YMRWYMIAD**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth trwy

- Gynhyrchu strategaeth cynaliadwyedd ar draws swyddogaethau sy'n cyfuno pob un o ymdrechion cynaliadwyedd y brifysgol; yn nodi camau gweithredu, amserlenni, blaenoriaethau a goblygiadau o ran adnoddau ac sy'n cynnwys atebolrwydd clir i'w gweithredu
- Gosod targedau ymestynnol heriol yn y tymor hir a'r tymor byr i integreiddio pob agwedd ar gynaliadwyedd yn ein gwaith bob dydd; ymgyrchu i wella nes bod ein perfformiad gyda'r gorau posibl a mesur ein perfformiad
- Meddwl yn wahanol er mwyn adnabod heriau, risgiau a chyfleoedd ym mhob agwedd ar ein busnes

- Sicrhau cofnodi effeithiol yn flynyddol gan gymryd rhan mewn gwahanol broiectau datgelu yn cynnwys y fenter cofnodi fyd-eang¹
- Diogelu adnoddau trwy eu dethol ar sail gwybodaeth; defnyddio, aildefnyddio ac ailgylchu'n effeithlon; lleihau holl ollyngiadau yn cynnwys llygryddion a gwastraff;
- Lleihau ein hól troed amgylcheddol trwy effeithlonrwydd ynni; gollyngiadau CO_{2e}; teithio a thrafnidiaeth, defnyddio dŵr croyw a rhyddhau carthion; gwastraff tirlenwi; rheoli tir a defnyddio cynnyrch lleol
- Sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr yn cael hyfforddiant uniongyrchol parhaus, yn cymryd rhan uniongyrchol ac anuniongyrchol ac yn cael profiad ymarferol o weithredu datblygu cynaliadwy yn amgylchedd y brifysgol
- Datblygu modiwlau cwrs lefel sylfaen safonol ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n tynnu sylw at faterion gwydnwch cynaliadwyedd byd-eang ac sy'n nodi'r prif ffyrdd o'u datrys
- Cyfuno cynaliadwyedd yn newisiadau credydau pwnc penodol pob cwrs ar bob lefel
- Ymgorffori gwerthfawrogiad o swyddogaeth iaith a diwylliant mewn cynaliadwyedd ym mhob rhan o'r campws a gwneud y gorau o'r manteision (a lleihau unrhyw effeithiau negyddol y gallwn eu creu) trwy fod wedi lleoli mewn tirwedd ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael dealltwriaeth sylfaenol o theorïau rheoli newid ac arferion ariannol / cyfreithiol / amgylcheddol / cyflogaeth
- Ymwneud ag undeb y myfyrwyr i sicrhau bod holl weithgareddau cyfredol a phosibl myfyrwyr (e.e. gwirfoddoli, Gwobr Cyflogadwyedd, Menter drwy Ddylunio, Cyflymydd Mentrau Cymdeithasol ac ati) yn cael eu hyrwyddo a'u cydnabod am eu cyfraniad i ymdrechion Prifysgol Bangor mewn perthynas â chynaliadwyedd, ac am y manteision posibl i fyfyrwyr yn eu gwaith at y dyfodol.
- Sicrhau system llywodraethu gorfforaethol effeithiol trwy gymryd rhan yn Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig²; hyrwyddo ein safonau ac arferion moesegol (yn uwch na'r gofynion cydymffurfio cyfreithiol isaf) i staff, myfyrwyr, contractwyr, isgcontractwyr a chyflenwyr; cyhoeddi holl ddeunydd adnoddau dynol yn newis ieithoedd ein budd-ddeiliaid, hyfforddiant effeithiol mewn hawliau dynol, moeseg a chydymffurfio


1 www.globalreporting.org/

2 <http://www.unglobalcompact.org/>

- Adnabod risgiau a rhesymau am ddamweiniau, anafiadau a salwch yn gysylltiedig â gwaith a gweithredu i ddileu'r achosion sylfaenol
- Gweithio gyda'n cadwyn cyflenwi i wella eu gallu i gyflawni ein gofynion
- Datblygu Polisi Caffael Cynaliadwy i egluro ein gofynion caffael a gweithio gyda'n cyflenwyr i'w helpu i gyflawni ein disgwyliadau a'n safonau
- Sefydlu Sefydliad Prifysgol Bangor i gydweithio gyda'r gwledydd sy'n datblygu lle mae cartrefi ein myfyrwyr rhyngwladol i fwrw ymlaen â gweithredu amgylchedd cymunedol, addysg a grymuso a sefydlu seilwaith lleol ar gyfer newid
- Gweithio gyda busnesau, llywodraethau ac alumni i sicrhau bod Prifysgol Bangor yn dal i fod yn berthnasol i'w hanghenion a'r marchnadoedd sy'n datblygu a sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad cadarnhaol gorau posibl i'r economi lleol a rhanbarthol
- Ennill cydnabyddiaeth am ein llwyddiannau a bod yn falch ohonynt.

3. GWEITHREDU

Wrth gyflawni'r ymrwymadau hyn bydd y brifysgol yn mabwysiadu matrices integredig a bydd holl weithgareddau'r brifysgol yn cael eu gwerthuso yn eu herbyn ac yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth effeithiol i bob agwedd sy'n berthnasol i bob un o'r canlynol:



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'Gymru Un Blaned'. Bydd yr angen i wneud cysylltiadau ystyrion rhwng y themâu amgylcheddol adnabyddus - effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, cadwraeth dŵr, trafndiaeth gynaliadwy, bwyd lleol, lleihau carbon, bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yr ystâd â'r bobl a'r economi yn gyrru ein hymchwil ynghyd â'n dysgu.

Nid ydym yn chwilio am ffordd o ailadrodd rheolau rhagnodedig yn ufudd. Ein her i bawb fydd nid 'faint o'r blychau hyn y gallwch eu ticio?' ond 'sut ydych chi'n sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r bobl a'r blaned trwy eich gweithredoedd?

4. CYFATHREBU

Mae Prifysgol Bangor yn datblygu ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel pwynt gwerthu unigryw; gyda set o werthoedd y gall gwahaniaethu'n glir yr hyn y mae'n ei gynnig mewn marchnad gynyddol gystadleuol yn y sector addysg uwch. <http://www.bangor.ac.uk/sustainability>

Dyma'r neges allweddol:

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod budd amgylcheddol cadarnhaol a chynnydd cymdeithasol yn deillio o fewn economi gadarn o ganlyniad i'w gweithgareddau.

Cyfathrebu Allanol

Bydd cyfathrebu allanol am gynaliadwyedd yn cefnogi Prifysgol Bangor wrth fynd ar drywydd y nodau cyffredinol fel y'u disgrifir yn ei mandad, cenhadaeth a strategaeth.

Y rheswm cyntaf i gyfathrebu yw *recriwtio myfyrwyr*. Mae cysylltiadau allanol (brandio, marchnata) ac alumni a chysylltiadau posibl (adnabod enw, Prifysgol Bangor fel sefydliad o'r safon uchaf) yn chwarae rhan bwysig yng nghysylltiadau allanol y brifysgol.

Yn ail, dylai cyfathrebu allanol hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyffredinol o Brifysgol Bangor ymhlith gwahanol fudd-ddeiliaid. Fel Prifysgol ryngwladol ar gyfer y rhanbarth gyda nodau tu hwnt i wneud elw (cystadlu a'r amgylchedd) mae Prifysgol Bangor yn atebol i'r gymdeithas gyfan.


Yn drydydd, mae gan gyfathrebu allanol dau bwrpas sef sicrhau tryloywder am yr hyn mae Prifysgol Bangor yn ceisio ei gyflawni o ran cynaliadwyedd yn ogystal â bod y brifysgol yn atebol am ei gweithredoedd a'i chyflawniadau.

Cyfathrebu Mewnol

Yr un fath ag amcanion Prifysgol Bangor am gyfathrebu allanol, prif amcan cyfathrebu mewnol y brifysgol am gynaliadwyedd yw cefnogi'r sefydliad wrth gyflawni'r nodau cyffredinol a ddisgrifir yng nghenhadaeth a strategaeth y brifysgol. Mae cyfathrebu mewnol yn atgyfnerthu'r diwylliant trefniadaethol a'r ymdeimlad o ymrwymiad ymhlith staff. Mae rhannu gwybodaeth rhwng y naill ochr a'r llall yn egwyddor bwysig i sicrhau cyfathrebu mewnol effeithlon. Mae staff hefyd yn gweithredu fel lluosydd wrth gyrraedd cynulleidfaoedd targed (myfyrwyr, staff eraill ac ati)

Bydd cyfathrebu cynaliadwyedd wedi ei ymgorffori yn y strategaeth gyfathrebu. Mae'r 'brifysgol gynaliadwy' yn deitl dros dro a fydd yn esblygu i gyfleu'n gryno y dyheadau a amlinellir yn y polisi hwn.

Llofnod:



Yr Athro John G. Hughes, Is-ganghellor

Dyddiad: 1^{af} o Awst 2017